



Case Study

Sian Phillips

School

Ysgol Dewi Sant  
Bryndulais Ave,  
Llanelli  
SA14 8RS



Astudiais FP1 a M2 trwy hyfforddiant wyneb yn wyneb gan diwtor yn dod i'r ysgol, a FP2 trwy wersi ar-lein. Yn Prifysgol Lerpwl, MPhys Astroffiseg. Nid oedd mathemateg bellach yn ofyniad cwrs, felly mae'n debyg ei fod wedi helpu fy nghais i sefyll allan

### **Sut fydddech chi'n disgrifio'ch profiad o astudio Mathemateg Bellach drwy'r FMSP?**

Roeddwn wrth fy modd â'r cwrs mathemateg bellach gan ei fod wastad yn heriol, yn ddiddorol ac yn fy ysgogi yn ddeallusol, ond esboniwyd pob rhan o'r cwrs mewn ffordd fel ei bod yn hawdd ei ddeall, a chawsom lawer o gyfle i ymarfer.

### **Beth oedd y profiad gorau a gawsoch fel rhan o astudio drwy'r FMSP? (A oedd unrhyw fudd nad oeddech yn disgwyl?)**

Fe wnes i fwynhau'r diwrnodau astudio, gan mai dyma'r dyddiau y dysgais y mwyaf ac roeddwn yn gallu datblygu fy ngwybodaeth ehangach o fathemateg y tu hwnt i gyfyngiadau'r cwrs. Fy hoff ddiwrnodau astudio oedd pan roeddem yn gorffen y cwrs yn gynnar a gallu defnyddio'r amser i ddarganfod mathemateg newydd a chyffrous gan y tiwtoriaid. Daeth pob tiwtor gwahanol â gwahanol ffordd o feddwl ac roedd o gymorth mawr pan ddaeth i'r arholiad i gael sawl ffordd o fynd at broblem.

**Beth ydych chi'n ei feddwl am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â Mathemateg Bellach? A oedd yn wahanol i lefelau A eraill o gwbl a sut?**

Roeddwn yn teimlo fod mathemateg Safon Uwch yn eithaf fformiwlaidd ac yn ddiflas gyda chwestiynau ailadroddus. Roedd mathemateg bellach yn wahanol gan fod rhaid i mi roi llawer mwy o amser i'r gwaith a chanolbwyntio mwy. Cefais fwy o waith cartref mathemateg bellach nag unrhyw bwnc arall, ond roedd bob amser yn bleser gennyf ei wneud a'r gwaith y byddwn i'n troi ato gyntaf, hyd yn oed pan nad oedd fod i mewn am wythnos a bod gen i brawf cemeg ar fin digwydd.

**Beth oedd y profiad lleiaf pleserus a gawsoch wrth astudio Mathemateg Bellach gyda FMSP? Unrhyw beth a oedd yn arbennig o galed?**

Fedrai ddim meddwl am unrhyw ran o'r cwrs a oedd yn anodd neu wnes i ddim mwynhau. Cyn dechrau'r cwrs roeddwn i'n poeni am y gwersi ar-lein, ond fe wnes i arfer defnyddio'r arddull rhyngweithio gwahanol ac roeddwn i'n gallu dysgu o'r gwersi hyn mor hawdd ag addysgu wyneb yn wyneb.

**Sut mae'ch teulu'n teimlo amdanoch chi yn cymryd Mathemateg Bellach a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag ef? A gawsoch unrhyw gymorth/gefnogaeth ganddynt?**

Fe wnaeth fy mam fy annog i astudio mathemateg bellach ar ddechrau'r flwyddyn pan nad oeddwn medru penderfynu, gan ei bod hi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol. Nid oedd fy nheulu yn fy helpu gyda'r gwaith ond roeddent yn gefnogol.

**Sut mae'ch ffrindiau'n teimlo amdanoch chi yn cymryd Mathemateg Bellach? Oes unrhyw ffrindiau yn astudio Mathemateg Bellach eu hunain? Ydych chi wedi cwrdd â ffrindiau newydd ar y cwrs FMSP?**

Roedd nifer o'm ffrindiau hefyd yn cymryd mathemateg bellach ac fe wnaethom ni gyd ei fwynhau. Canfûm fod astudio mathemateg bellach yn cryfhau fy nghyfeillgarwch gan fy mod yn falch iawn i rannu'r cyffro o ddarganfod cysyniadau mathemategol newydd gyda fy ffrindiau agos a byddem yn aml yn trafod yr hyn yr oeddem wedi'i wneud yn y dosbarth a chydweithio. Fe wnaethom ni hefyd fwynhau cyfarfod â phobl eraill gyda diddordebau tebyg yn ystod y dyddiau astudio a gwneud ffrindiau newydd.

**A oeddech chi'n gweld Mathemateg Bellach yn anoddach na gwaith Safon Uwch arferol?**

Roeddwn yn ei weld yn haws na'r rhan fwyaf o bynciau gan fod llwyddiant yn dibynnu ar

ddealltwriaeth yn hytrach na chofio. Roedd y cysyniadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith bob amser yn cael eu hesbonio'n wych yn ystod y gwersi ac os oedd gennyf unrhyw gwestiynau neu broblemau roedd fy nhiwtoriaid bob amser yn hapus i roi help ac awgrymiadau felly doeddwn i byth yn teimlo ei bod yn anodd.